## Gweddi o Ymgysegriad

**Cyfraniad y Gynulleidfa:**
Canu Emyn 767 yn *Caneuon Ffydd*.
Y gynulleidfa i ganu pob pennill yn ei dro.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer, Arglwydd, f'einioes i
i'w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.

**Arweinydd:**
Arglwydd, dymunwn gysegru'n dwylo i gyflawni dy ofynion ac i weini ar eraill, a chysegru ein traed i fynd ar dy negesau a dwyn cysur i eraill.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer di fy nwylo'n rhodd,
fyth i wneuthur wrth dy fodd;
cymer, Iôr, fy neudroed i,
gwna hwy'n weddaidd erot ti.

**Arweinydd:**
Arglwydd, dymunwn gysegru'n genau a'n lleisiau i gysuro'r rhai sy'n unig ac yn drist, i ddweud wrth eraill am dy gariad ac i offrymu iti ein gweddïau a'n haddoliad.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer di fy llais yn lân,
am fy Mrenin boed fy nghân;
cymer fy ngwefusau i,
llanw hwynt â'th eiriau di.

**Arweinydd:**
Arglwydd, dymunwn gyflwyno'n heiddo i ti, ein cyfraniadau a'n hamser i hyrwyddo dy holl dystiolaeth werthfawr.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer f'aur a'r da sydd im,
mi ni fynnwn atal dim;
cymer fy nghyneddfau'n llawn,
i'th wasanaeth tro bob dawn.

**Arweinydd:**
Arglwydd, dymunwn gysegru'n hewyllys a'n calon i ti, er mwyn eu dwyn i gytgord â'th ewyllys, er mwyn i'n meddyliau fod yn un â'th feddwl di, ac er mwyn i ni ufuddhau i ti a'th garu ym mhob peth.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer mwy f'ewyllys i,
gwna hi'n un â'r eiddot ti;
cymer iti'r galon hon
yn orseddfainc dan fy mron.

**Arweinydd:**
Arglwydd, dymunwn roi ein hunain yn llwyr i ti, heb amau, heb betruso, heb ailfeddwl, heb ddal dim yn ôl ond mentro'r cyfan yn antur fawr dy Deyrnas. Arglwydd, cymer ni bob un ohonom sydd yn bresennol yn yr oedfa hon.

**Y Gynulleidfa:**
Cymer fy serchiadau, Iôr,
wrth dy draed 'rwy'n bwrw eu stôr;
cymer, Arglwydd, cymer fi
byth, yn unig, oll i ti.

**Pawb:** Amen.